

Cymdeithas Cludiant Cymunedol

Swyddog Gweithredol Cefnogi ac Ymgysylltu

(De Cymru)

Pecyn Recriwtio | Lonawr 2019



1. Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â'r tîm yn y Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA).

Ym mhob rhan o'r DU, bob diwrnod o'r flwyddyn, mae miloedd o staff a gwirfoddolwyr cludiant cymunedol yn helpu pobl i ddal i fod yn annibynnol, i gymryd rhan yn eu cymunedau ac i gael mynediad at wasanaethau hanfodol a chyflogaeth.

Mae gan weithredwyr Cludiant Cymunedol stori wych i'w hadrodd a gwaith CTA yw eu helpu nhw i'w hadrodd ac i'w cefnogi i ddatblygu gwasanaethau rhagorol sy'n gallu gweddnewid bywydau a chymunedau. Mae ein gwaith yng Nghymru yn greiddiol i hyn. Mae gennym tua 100 o aelodau a llawer o randdeiliaid eraill ledled Cymru, ac mae'r rhain i gyd yn helpu i gynnig atebion cludiant hygyrch a chynhwysol yn eu cymunedau.

Mae CTA wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu arweinyddiaeth ac i gefnogi gweithredwyr cludiant cymunedol ac elusennau a grwpiau cymunedol eraill sy'n trefnu cludiant i'w defnyddwyr gwasanaeth er mwyn eu helpu i gymryd rhan yn y gweithgareddau y maen nhw'n eu harwain.

Mae Swyddogion Gweithredol Cefnogi ac Ymgysylltu yn rhan o Grŵp Gwasanaethau Aelodau CTA o dan arweiniad ein Rheolwr Cyngor a Gwasanaethau Aelodau a'r Rheolwr Cefnogaeth Ganolog, sy'n gweithio o'n swyddfa ym Manceinion. Mae hyn yn dod â chydweithwyr mewn rolau tebyg ledled y DU at ei gilydd i gydweithio i gyflawni un o flaenoriaeth strategol CTA, sef cryfhau ein haelodau a chodi safonau a chyfrannu i flaenoriaethau strategol eraill.

Byddwch chi'n gweithio gyda Christine Boston, Cyfarwyddwr Cymru CTA, i ddatblygu ein rhaglenni cefnogaeth a byddwch yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwahaniaeth ar ran y bobl a'r cymunedau sydd ag angen cludiant sy'n hygyrch ac yn gynhwysol, fel bod popeth arall yn eu bywyd yn gallu bod yn hygyrch ac yn gynhwysol hefyd.

Os ydy'r her hon yn eich denu, ac os oes gennych gymwysterau a hunanhyder i fynd i'r afael â hi, yna byddem wrth ein boddau'n clywed gennych.

Dewch i fod yn rhan o rywbeth gwych.

Cofion gorau



Bill Freeman
Prif Weithredwr

2. Gwybodaeth am y Gymdeithas Cludiant Cymunedol

Rydyn ni'n ymwneud â chludiant hygyrch a chynhwysol.

Ein gweledigaeth yw byd lle gall pobl ffurfio a llunio eu hatebion cludiant hygyrch a chynhwysol eu hunain.

Ein cenhadaeth yw gwireddu'r weledigaeth hon drwy dair blaenoriaeth strategol:

1. Hyrwyddo cludiant hygyrch a chynhwysol
2. Cysylltu pobl a syniadau
3. Cryfhau ein haelodau a chodi safonau

Ein pump o werthoedd sy'n llunio sut rydyn ni'n gweithio

- Rydyn ni'n rhoi ein haelodau'n gyntaf
- Rydyn ni'n arwain gydag awdurdod a chyfrifoldeb
- Rydyn ni'n blaenoriaethu symudedd a hygyrchedd
- Rydyn ni'n hyrwyddo gwirfoddoli
- Rydyn ni'n uchelgeisiol

CTA mewn niferoedd

- Mae gennym ryw 1,600 o aelodau ar draws y DU, gyda rhyw 100 o'r rhain yng Nghymru.
- Mae bwrdd o 11 ymddiriedolwr yn ein llywodraethu, y mae wyth ohonyn nhw'n cael eu dewis o blith aelodau CTA.
- Hefyd mae gennym Bwyllgor Cymru sy'n cynnwys aelodau yng Nghymru ac mae ein haelodau yn ymgysylltu llawer o ran llunio a chefnogi ein gwaith.
- Ar hyn o bryd rydyn ni'n cyflogi 20 aelod o staff ledled y DU, y mae chwech ohonyn nhw yng Nghymru.
- Mae gennym bum swyddfa; mae ein prif swyddfa ganolog ym Manceinion gyda swyddfeydd eraill yn Abertawe, y Rhyl, Belfast a Chaeredin. Hefyd mae gennym ddau aelod o staff sy'n gweithio o'u cartrefi.
- Ein hincwm blynyddol yn 2015/16 oedd tua £1.1m.

3. Disgrifiad swydd

Swydd:	Swyddog Gweithredol Cefnogi ac Ymgysylltu
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Cymru
Lleoliad:	Hyblyg o fewn De Cymru, gyda theithio rheolaidd ledled Cymru

Diben y rôl:

Gwneud gwaith allgymorth gydag aelodau a rhanddeiliaid eraill i nodi'r anghenion cefnogi, i argymhell ac i lunio atebion ar y cyd ac i gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio mentrau sy'n cael eu harwain gan CTA.

Mae hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo'r defnydd o safonau perfformio CTA ar gyfer cludiant cymunedol a rhoi cymorth a chynghor i helpu gweithredwyr i weithio i'r rhain.
- Hyrwyddo'r defnydd o MiDAS, rhaglen genedlaethol CTA o addysg a hyfforddiant gyda sicrwydd ansawdd er mwyn gwella safonau gyrru a gweithredu cerbydau cludiant cymunedol yn fwy diogel.
- Drwy raglenni a phrosiectau wedi'u comisiynu, cefnogi ein haelodau a grwpiau cymunedol eraill i fod yn llwyddiannus mewn cyd-destunau newydd a newidiol fel y gallan nhw elwa o gyfleoedd a chwrrd ag anghenion newydd wrth iddyn nhw godi.

Cyfrifoldebau:

1. Cadw cysylltiad rheolaidd ag aelodau CTA a grwpiau eraill sydd wedi ymrwymo i wella mynediad a chynhwysiant drwy gludiant er mwyn:
 - a. hyrwyddo a gwella'r niferoedd sy'n defnyddio mentrau a gweithgareddau o dan arweiniad CTA, fel digwyddiadau, ymgynghoriadau a phrosiectau.
 - b. cywain gwybodaeth am eu harferion a'u perfformiad er mwyn eu defnyddio i godi proffil cludiant cymunedol ac i roi gwybod iddyn nhw sut gall CTA eu cefnogi i ddatblygu a chyflwyno eu gwasanaethau.
 - c. nodi unrhyw anghenion cefnogaeth a datblygiad y gall fod ganddyn nhw ar hyn o bryd a, lle y bo'n bosibl, gweithio gyda nhw i lunio atebion i'r anghenion hyn ar y cyd, gan eu cyfeirio at wasanaethau CTA a rhai trydydd parti.
 - ch. cefnogi mentrau i sefydlu gwasanaethau newydd.
2. Cadw cysylltiad cyson â'r swyddogion allweddol mewn awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli perthnasoedd â chludiant cymunedol yn eu hardal.

3. Cysylltu â Phrif Swyddogion sydd newydd gael eu penodi a swyddi allweddol eraill o fewn y cyrff sy'n aelodau er mwyn eu cyflwyno i CTA a manteision aelodaeth.
4. Gweithio gyda'r Rheolwr Cyngor a Gwasanaethau Aelodau a Swyddogion Gweithredol Cymorth ac Ymgysylltu eraill i sicrhau bod y llif o ymholiadau cyngor yn cael ei reoli'n effeithiol i safonau y cytunwyd arnynt gyda lefelau uchel o ran bodlonrwydd cwsmeriaid.
5. Dod o hyd i gyfleoedd i fynychu a chyfrannu i ddigwyddiadau a chynadleddau lle mae aelodau CTA yn ymgynnull i hyrwyddo mentrau CTA, cywain gwybodaeth a nodi unrhyw anghenion cefnogaeth y gall fod ganddynt ar hyn o bryd.
6. Lle mae'r cyllid yn caniatáu, trefnu a hwyluso digwyddiadau dysgu a rhwydweithio lleol ar gyfer gweithredwyr cludiant cymunedol a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
7. Cyfrannu i gynhyrchu adnoddau digidol er mwyn cefnogi anghenion datblygu gweithredwyr cludiant cymunedol.
8. Cyfrannu i gyflawni rhaglenni sydd wedi'u hariannu gan grantiau, prosiectau wedi'u comisiynu a gwasanaethau sy'n ennill ffioedd a bod yn gyfrifol am gyflawni targedau sy'n gysylltiedig â'r rhain.

Dyletswyddau Cyffredinol

9. Sicrhau bod cadw cofnodion personol ac adrodd yn digwydd yn gyson ac i safon uchel, gan gynnwys cynhyrchu data er gwybodaeth i'r rheolwyr ac i wneud adroddiadau i'r rhai sy'n ein hariannu.
10. Cyflawni targedau a chanlyniadau unigol ac ar y cyd, rhai ariannol a heb fod yn ariannol.
11. Cefnogi'r gwaith llywodraethu drwy gyfrannu cynnwys i gyfarfodydd y bwrdd a'i is-bwyllgorau.
12. Gwneud dyletswyddau eraill yn unol â chwmpas y rôl, gan gynnwys cefnogi swyddogaethau rheoli a goruchwyllo'r swyddfa, lle y bo'n briodol.

4. Manyleb person

Mae'r fanyleb person yn amlygu'r nodweddion yr ystyrir eu bod yn hanfodol ac yn ddymunol er mwyn cyflawni'r swydd hon. Mae pob un yn hanfodol oni bai eu bod wedi'i nodi â (D) am 'dymunol'.

Profiad a gwybodaeth
1. Profiad ymarferol o weithio mewn elusennau a grwpiau cymunedol eraill neu gyda nhw i gryfhau eu gwasanaethau a'u perthnasoedd.
2. Profiad o weithio gyda chyrrff sector cyhoeddus ac o gynorthwyo cydweithredu ar draws sectorau.
3. Gwybodaeth weithio dda am o leiaf dri o'r meysydd gweithgarwch hyn y gall CTA gefnogi aelodau gyda nhw: <ul style="list-style-type: none">• Llywodraethu elusennau.• Gwahanol fathau o gyllido elusennau a dulliau o gynhyrchu incwm.• Asesu ac adnabod anghenion datblygu cyrff.• Recriwtio a chadw gwirfoddolwyr.• Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.• Datblygu partneriaethau a pherthnasoedd.• Gweithio gyda busnesau.
4. Bod yn gyfarwydd â defnyddio amrywiaeth o adnoddau a thechnegau y gellir eu cymhwyso i gryfhau elusennau, eu gwasanaethau a'u perthnasoedd.
5. Profiad o gywain gwybodaeth gan randdeiliaid a defnyddio hyn i gyfrannu i ddatblygu polisi a/neu wasanaethau.
6. Deall y gwahanol fathau o wasanaethau cludiant cymunedol a'r fframwaith cyfreithiol y maen nhw'n gweithio iddynt (D).
Sgiliau
7. Sgiliau rhyngpersonol rhagorol a gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.
8. Gallu i lunio a gwerthuso cyfleoedd dysgu a rhwydweithio.
9. Sgiliau ysgrifennu rhagorol a phrofiad o ddefnyddio'r rhain wrth greu adnoddau gwybodaeth ac adroddiadau.
10. Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol a'r gallu i reoli nifer o flaenoriaethau a phrosiectau.

11. Gallu i ddefnyddio cymwysiadau Microsoft Office (neu rai cyfatebol) i safon uchel.
12. Trwydded yrru lawn (D).
Nodweddion personol
13. Cydymdeimlad â materion sy'n effeithio ar bobl a chymunedau sydd o dan anfantais oherwydd diffyg cludiant hygrych a chynhwysol.
14. Agwedd broffesiynol a chadarnhaol wrth reoli perthnasoedd gweithio.
15. Agwedd gadarnhaol at eich atebolrwydd personol eich hun er mwyn cyflawni targedau a chanlyniadau y cytunwyd arnynt, yn rhai ariannol a heb fod yn ariannol.
16. Cywreinrwydd naturiol am syniadau a dangos gwreiddioldeb a dyfeisgarwch wrth eich gwaith.
17. Ymagwedd hyblyg at eich gwaith a'r gallu i deithio ledled Cymru a rhannau eraill o'r DU fel y bo gofyn.
18. Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig a llafar (D).

5. Crynodeb o'r amodau a'r telerau

- Pecyn tâl sy'n cynnwys:
 - Cyflog blynyddol yn dechrau ar £22,962;
 - Mae'r CTA yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau penodol sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hunangofrestru, sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr o bump y cant o'r cyflog blynyddol. Os bydd deiliad y swydd yn weithiwr sy'n gymwys, bydd yn cael ei gofrestru yn y cynllun yn awtomatig. Bydd manylion llawn ar gael gan y tîm Cyllid;
 - Cynllun Tâl Salwch CTA sy'n rhoi tâl yn ychwanegol at y Tâl Salwch Statudol. Mae hawl i dâl llawn am yr wyth wythnos gyntaf, a hanner y tâl am yr wyth wythnos wedi hynny;
 - Yswiriant Bywyd Grŵp, ar hyn o bryd mae'n dair gwaith eich cyflog blynyddol.
- Mae'r swydd hon yn gontract parhaol, yn ddibynnol ar grant ariannu blynyddol.
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol, hefyd gwyliau banc a diwrnodau ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae'r gwyliau blynyddol yn codi dros gyfnod o amser i uchafswm o 29 diwrnod.
- Wythnos weithio amser llawn o 35 awr, rhai oriau anghymdeithasol gan gynnwys aros dros nos; wedi'u gweithio yn ystod system oriau hyblyg CTA.
- Mae'r swydd wedi'i dynodi'n un sy'n gweithio o'r swyddfa yn Ne Cymru. Hefyd bydd teithio rheolaidd y tu allan i Dde Cymru i weithgareddau CTA mewn rhannau eraill o'r DU.

6. Sut mae ymgeisio

Proses

1. Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person a phenderfynwch a yw eich profiad, eich sgiliau a'ch diddordebau'n eich gwneud chi'n addas iawn i'r rôl.
2. Rhaid i chi ddarparu tri pheth os ydych chi eisiau cynnig am y swydd.

- **CV** heb fod yn hirach na phedair ochr A4, sy'n cynnwys enwau dau ganolwr, rhaid mai eich cyflogwr cyfredol neu fwyaf diweddar yw un ohonyn nhw. Fyddwn ni ddim yn cysylltu â nhw cyn y cyfweiliadau neu benderfyniad i gynnig penodiad.
- **Llythyr eglurhaol** lle rydych chi'n esbonio eich cymhelliad dros gynnig am y swydd a sut rydych chi'n cyflawni'r holl feini prawf yn adrannau Profiad a gwybodaeth a Sgiliau y fanyleb person (pwyntiau 1 i 12).
- **Nodwch:** dydyn ni ddim eisiau ichi gynnwys gwybodaeth am sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf Nodweddion personol gan fod hyn yn rhywbeth y byddwn ni'n ei ystyried yn ystod y cyfweiliadau.

Byddwn ni'n asesu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn y llythyr yn rhan arwyddocaol o'r penderfyniad a fyddwn ni'n eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os gwelwch chi'n dda, peidiwch ag ysgrifennu mwy na phedair ochr A4 ar gyfer eich llythyr.

- **Ffurflen monitro cydraddoldeb** wedi'i llenwi y gallwch chi ei lawrlwytho o adran recriwtio swyddi ein gwefan.
3. Rhaid cyflwyno'r dogfennau'n electronig fel atodiadau mewn e-bost wedi'i anfon at maxine@ctauk.org erbyn y terfyn amser, sef canol dydd ar 18th Ionawr 2019.
 4. Os nad oes neb wedi cysylltu â chi erbyn 21st Ionawr 2019, yna dydych chi ddim wedi bod yn llwyddiannus wrth symud ymlaen i gam nesaf y broses recriwtio.

Dyddiadau allweddol i'w nodi

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 18th Ionawr 2019 am 5pm

Dyddiad llunio rhestr fer: 19th Ionawr 2019

Dyddiad y cyfweiliadau: 26th Chwefror 2019 yng Nghaerdydd

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd neu pe hoffech ragor o wybodaeth, ffoniwch 0161 351 1475 neu e-bostiwch info@ctauk.org yn y lle cyntaf. Bydd un o'r tîm yn trefnu i'r aelod priodol o staff gysylltu â chi.